Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 69/2020
Dyddiad Cyhoeddi Hydref 22 2020
© Hawlfraint y Goron 2020

# Adroddiad Blynyddol Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru 2019

ISBN Digidol: ISBN:978-1-80038-934-2

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2020

the research solution

str

# Cydnabyddiaethau

Hoffem gydnabod cefnogaeth a chymorth gweithredwyr yn y sector llety sy'n cyflwyno eu data i Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru bob mis. Heb eu cyfraniad nhw, ni fyddai'r data a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn bosib.

# Methodoleg

Mae The Research Solution Ltd wedi bod yn coladu data o Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru ers 2013, gyda data ychwanegol am westai a ddarperir gan STR sydd wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol ar gyfer llety gwestai. Arolwg ar-lein misol yw'r arolwg sy'n defnyddio data a gesglir drwy RIBOS, y porth gwe ar-lein. Caiff data ei dderbyn hefyd drwy e-bost ar ffurf ExcelWord, drwy'r post a thros y ffôn. Mae sawl asiantaeth fawr yn darparu data ar gyfer llety hunanarlwyo, yn ogystal â data o'r Clwb Carafanau a Gwersylla a'r YHA.

Ar ddechrau pob mis, anfonir e-bost at bob cyfranogwr ar-lein ac e-bost gyda nodyn atgoffa yn cael ei hanfon drwy e-bost bythefnos yn dilyn y cyswllt cychwynnol. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani'n amrywio yn ôl y sector, fel a ganlyn:

| **Â gwasanaeth** | **Hunanarlwyo** | **Parciau Carafanau/Gwersylla** | **Hosteli** |
|---|---|---|---|
| Cyraeddiadau | Unedau | Nifer y lleiniau | Cyraeddiadau o'r DU/Tramor |
| Gwesteion (gan gynnwys busnes) | Nifer y nosweithiau | Lleiniau a osodwyd | Gwesteion (DU/Tramor) |
| Ystafelloedd a feddiannwyd | Tariff | Tariff fesul llain | Gwelyau ychwanegol a ddefnyddiwyd (os yn berthnasol) |
| Ystafelloedd a gwelyau ychwanegol a ddefnyddiwyd (os yn berthnasol) | Maint y grŵp | | |
| Nifer y gwesteion o dramor | | | |
| RevPAR | | | |

# Methodoleg

Pan dderbynnir y data misol, caiff y data ei ddadansoddi a bydd y canlyniadau ar ffurf gyfansymiol ar gael i bob sefydliad sy’n cymryd rhan i’w gweld, ynghyd ag opsiynau i gymharu â darparwyr llety eraill yn eu grŵp perthnasol.

Dangosir y sampl gyfartalog flynyddol gyffredinol ar gyfer pob sector isod:
Gwestai – 54 drwy RIBOS a chynigwyd 127 gan STR
Gwely a Brecwast/Gwestai bach - 26
Unedau hunanarlwyo – 973 a wnaed o 10% annibynnol a 90% a gyflenwyd gan asiantaethau hunanarlwyo mawr.
Carafanau Teithiol a Disymud – 47 (Mai-Hydref 2019)
Hosteli/Buncdai – 20

Caiff ffurflenni a gwblhawyd eu dychwelyd i The Research Solution i’w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Cafodd data ar gyfer 2019 yn ei chyfanrwydd ei ail-ddadansoddi ar ddiwedd y flwyddyn i gynnwys unrhyw ffurflenni a ddychwelwyd ar ôl cwblhau’r dadansoddiad misol. Mae’r ffigurau yr adroddwyd amdanynt yn seiliedig ar yr ailddadansoddiad blynyddol ac felly gallant amrywio o’r rhai hynny a gyflwynwyd yn y crynodebau misol.
Sylwer: wrth gymharu data, dylid ystyried y meintiau samplau cymharol fach ar draws rhai sectorau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag amrywio misol yn y rhai hynny sy’n darparu data.

*DS: o ganlyniad i’r sampl isel yn y sector Gwely a Brecwast/Gwestai Bach, nid oes ffigurau ar gyfer de-ddwyrain Cymru.*

# Buddion Cymryd Rhan

| | | |
|---|---|---|
| **Galw am lety** | - | Gwybodaeth gynhwysfawr a chyfoes am yr alw am lety ledled Cymru. |
| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | - | Bydd cyfranogwyr yn derbyn adroddiadau misol, gyda chofnod o'u cyfraddau deiliadaeth nhw ynghyd â rhai busnesau tebyg eraill yn eu hardal nhw a ledled Cymru |
| **Cynhwysfawr a chyfoes** | - | Mae'r adroddiadau misol yn arf fusnes hynod werthfawr, er enghraifft, er mwyn cynllunio busnes, ceisiadau am fenthyciad/grant etc. Gellir cymryd rhan yn rhad ac am ddim. Darperir yr holl ddeunyddiau ac adnoddau am ddim. |

*Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac mae data ar gael yn gyhoeddus ar ffurf gyfansymiol yn unig.*

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolygon deiliadaeth yn barhaus ymysg darparwyr llety gwestai â gradd ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd gwestai a gwelyau yng Nghymru. I gydymffurfio â Chyfarwyddyd yr UE ar Ystadegau Twristiaeth, ehangwyd yr arolwg ym 1997 i gynnwys yr holl lety â gwasanaeth gan gynnwys gwestai bach, sefydliadau Gwely a Brecwast a llety â gwasanaeth heb radd. Mae Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru yn chwarae rôl hanfodol wrth gasglu gwybodaeth am dwristiaeth yng Nghymru ac fe'i defnyddir i fonitro perfformiad, llywio cynlluniau busnes a llywio strategaethau marchnata.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanarlwyo ar ffurfiau amrywiol ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanarlwyo, cartrefi gwyliau carafanau a pharciau carafanau teithiol a gwersylla. Yn ogystal, yn 2018, caiff hosteli a buncdai eu cynnwys yn yr arolwg hefyd.

Dyma adroddiad crynodeb Arolwg Deiliadaeth Llety Croeso Cymru ar gyfer 2018 sy'n cynnig cymariaethau â blynyddoedd blaenorol pan fydd yn hygyrch ac yn briodol. Mae set lawn o dablau data sy'n dangos tueddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf ar gael fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Bob mis, mae'r arolwg yn casglu data perfformiad allweddol o sampl o 1,250 o ddarparwyr llety ledled y wlad. Mae'r sampl yn cynnwys gwestai, sefydliadau gwely a brecwast a gwestai bach, hosteli, busnesau hunanarlwyo a safleoedd carafanau a gwersylla.

# Cyflwyniad

Prif amcanion yr arolwg deiliadaeth yw monitro a gwerthuso tueddiadau perfformiad a llywio gwaith cynllunio a datblygu cenedlaethol a rhanbarthol i Croeso Cymru a rhanddeiliaid twristiaeth eraill. At hynny, mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth fusnes i ddarparwyr llety a busnesau twristaidd eraill i gynorthwyo gyda'u twf a'u datblygiad. Mae adroddiadau meincnodi sy'n dangos cymhariaeth â darparwyr llety eraill ar gael i'r holl gyfranogwyr sy'n dychwelyd eu data bob mis, gan gynnig gwybodaeth graff i fusnesau.

**Newid wrth Adrodd am Ddeiliadaeth**

Ym mis Ionawr 2014, newidiwyd y data deiliadaeth gwestai wrth gynnwys data a syndiceiddiwyd ar gyfer 100 o westai mwy (gyda 100+ o ystafelloedd) a ddarparwyd gan STR yn y cyfrifiad deiliadaeth gwesty cyfan ar gyfer Cymru. Mae'r data a ddarperir gan STR yn cynnwys deiliadaeth a refeniw ond nid y math o westai (h.y. o'r DU neu o dramor, teithwyr at ddibenion busnes neu at ddibenion eraill). Mae'r data hwn wedi cael ei gynnwys ers 2014 ond nid ar gyfer y blynyddoedd cyn hynny. Mae cynnwys y data hwn yn gwneud yr arolwg llawer yn fwy cadarn ond gall gael effaith ar dueddiadau cyn 2014.  Ysgrifennwyd yr adran ar westai yn yr adroddiad hwn gan STR i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cyffredinol.

# Cyflwyniad

## TERMINOLEG

**Deiliadaeth Ystafelloedd** – Nifer yr ystafelloedd dan ddeiliadaeth yn ystod y mis a fynegir ar ffurf canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried unrhyw gau dros dro neu gynnydd yn nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael bob nos).

**Deiliadaeth Gwelyau** – Nifer yr arosiadau dros nos yn ystod y mis a fynegir ar ffurf canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried newidiadau dros dro i nifer y gwelyau bob nos).

**Deiliadaeth Unedau** – Caiff hon ei mesur drwy gymharu nifer yr unedau a osodwyd i'r nifer a oedd ar gael i'w gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

# Llety â Gwasanaeth

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad Gwestai a llety Gwely a Brecwast/Gwestai Bach

**Deiliadaeth Ystafelloedd** – Nifer yr ystafelloedd dan ddeiliadaeth yn ystod y mis a fynegir ar ffurf canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael


**Deiliadaeth Gwelyau** – Nifer yr arosiadau dros nos yn ystod y mis a fynegir ar ffurf canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael yn ystod y mis

# Cymru yng Nghyd-destun y DU

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o dueddiadau perfformiad gwestai yng Nghymru yn 2019 gan gyfeirio at berfformiad dros y pum mlynedd flaenorol.

**DU - Defnydd Gwesty (Blynyddol)[1]**

Fel y bu'r duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cofnododd gwestai Cymru ddefnydd ychydig yn is – o ran ystafell a gwlâu – yn 2019 o gymharu â'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.




Fel yn 2018, cyflawnodd gwestai yn Lloegr y defnydd ystafell uchaf (78% – yr un lefel a gofnodwyd yn 2018) ymhlith pedair gwlad y DU. Yn 2019, cyflawnodd gwestai yn Lloegr y defnydd gwlâu uchaf hefyd (55%).

Roedd gan westai yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru gymarebau gwlâu i ystafelloedd uwch o gymharu â gwestai yn Lloegr. Mae'r canfyddiad hwn yn dangos bod gwestai y tu allan i Loegr wedi croesawu cyfran uwch o westeion hamdden. O'i roi yn wahanol, mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod gwestai Lloegr wedi cyflawni cymysgedd mwy amrywiol o westeion hamdden a busnes yn 2019 (a hefyd yn 2018).

Gwelodd 2019 lefelau tebyg yn fras o ddefnydd ystafelloedd ledled y DU o gymharu â 2018. Eithriad oedd Gogledd Iwerddon lle cofnodwyd dirywiad bach yn nefnydd ystafelloedd a llai felly o ran defnydd gwlâu.

Mae'n werth nodi, er gwaethaf defnydd gwastad rhwng 2018 a 2019 yn y DU, tyfodd y sector oddeutu 2% oherwydd agoriadau gwestai newydd a chynnydd yn stoc ystafelloedd gwestai. Felly, er bod defnydd yn gymharol sefydlog, cynyddodd maint cyffredinol y sector yn 2019.[2]

Roedd y profiad yng Nghymru yn debyg i brofiad y DU yn ei chyfanrwydd wrth i ddatblygiad gwestai newydd gynyddu maint y farchnad oddeutu 2%. Felly, roedd y galw cyffredinol am lety – hynny yw nifer yr ystafelloedd a werthwyd gan westai – ychydig yn fwy nag yn 2018 er bod defnydd yn debyg.[3]

[1]Ffynonellau: Tourism Northern Ireland, VisitScotland, VisitEngland.
[2 a 3]Ffynhonnell: AM:PM, cronfa ddata cyflenwi a datblygu gwestai gynhwysfawr STR

# Refeniw

Mae'r data sydd ar gael i'r cyhoedd ar berfformiad refeniw ystafelloedd gwestai ac, yn benodol, edrych ar ddau fesur allweddol – cyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) a refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) – yn dangos bod gwestai yn y DU wedi perfformio'n fras ar yr un lefel â 2018.[5]

**Y DU – ADR & RevPAR Gwestai (Blynyddol)** [4]

**Gogledd Iwerddon**

2019 £78.63

2018 £79.57

**Cymru**


2019 £67.32 £50.63

2018 £68.15 £52.75

**Lloegr**

2019 £97.31 £75.75

2018 £96.14 £75.09



**ADR** **RevPAR**

Roedd y duedd ar gyfer y DU yn gyson i raddau helaeth â'r profiad yng Nghymru, er bod gostyngiadau bach mewn ADR ac, yn fwy felly, cofnodwyd RevPAR.

Fel y dangosir yn y darlun ar y dudalen hon, cyflawnodd gwestai yn Lloegr yr ADR a'r RevPAR uchaf tra bod gwestai Cymru wedi cyflawni'r isaf yn 2018 a 2019.[6]

Er ei fod yn ddangosydd da o apêl a chryfder marchnad gwestai, mae'n werth nodi bod cyfansoddiad y farchnad westai yn dylanwadu ar ADR. O'i chymharu â'r DU gyfan, mae Cymru'n cynnwys cyfran uwch na'r cyffredin o westai dosbarth economi sydd fel rheol yn cyflawni ADR is o gymharu â gwestai dosbarthiadau eraill.[7] Felly, mae'r ADR is a, thrwy hynny, perfformiad RevPAR a gofnodwyd yng Nghymru hefyd yn adlewyrchiad o'r cyflenwad o westai yn y wlad.

[4] Ffynonellau: Tourism Northern Ireland, VisitScotland, VisitEngland. Nodyn: Nid oes data ADR a RevPAR Gwesty ar gyfer yr Alban ar gael. Yn yr un modd, nid oes data RevPAR ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gael.

[5] Cyfrifir y gyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sy'n cael eu gwerthu. Cyfrifir refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sydd ar gael. Mae RevPAR yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel y mesur perfformiad gwestai mwyaf pwerus gan ei fod yn cyfrifo arenillion yn seiliedig ar bob ystafell westy (naill ai wedi'u gwerthu neu heb eu gwerthu) am unrhyw gyfnod o amser.

[6] Er nad oes unrhyw ddata cyhoeddus ar RevPAR Gogledd Iwerddon, gallwn amcangyfrif o'r ffigurau defnydd a'r ADR fod Gogledd Iwerddon wedi perfformio'n well na Chymru o ran perfformiad RevPAR. Nodyn: mae'r gymhariaeth yn seiliedig ar Ogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig.

[7] Ffynhonnell: AM:PM, cronfa ddata cyflenwi a datblygu gwestai gynhwysfawr STR.

# Cyd-destun Ewropeaidd Ehangach

**Defnydd a Refeniw**[8]

Yn 2019, er gwaethaf risgiau yn sgil Brexit a chynnydd llety amgen, ymhlith ffactorau eraill, parhaodd marchnad gwestai Ewrop yn wydn. Ar y cyfan, cofnododd y rhanbarth 72% o ddefnydd ystafelloedd a oedd yr un peth â 2018.  Mae llety amgen yn cynnwys rhentu yn y tymor byr a hosteli yn bennaf. Mae'r mathau hyn o lety wedi tyfu o ran ansawdd, statws a chyflenwad yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o'r herwydd maen nhw'n cael eu hystyried yn gynyddol fel cystadleuwyr i westai. Mae rhentu yn y tymor byr, yn benodol, wedi gweld twf arbennig o gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

| | 2018 | 2019 |
|---|---|---|
| Ewrop – Defnydd Ystafell | 72% | 72% |
| Ewrop – ADR (Ewros) | 111.04 | 113.39 |
| Ewrop – RevPAR (Ewros) | 79.90 | 81.93 |

Cynyddodd ADR ychydig (2.1% mewn termau cymharol) i 113.39 Ewro yn 2019 o'i gymharu â 111.04 Ewro yn 2018. Digwyddodd y lefel hon o berfformiad yn ystod cyfnod a welodd dwf cyflenwad parhaus – ac uwch na'r cyffredin – sy'n tynnu sylw at y galw sylfaenol cryf cadarnhaol ar draws y rhanbarth a photensial Ewrop.

Yn y cyfamser, y RevPAR yn 2019 oedd 81.93 Ewro a oedd yn dwf o 2.5% o 2018. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod twf 2019 RevPAR yn arafach na 2017 (+5.8%) a 2018 (+4.7%). Felly, er y gellir crynhoi'r perfformiad fel perfformiad positif, roedd cyfradd y twf ar lefel is o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Ar lefel y farchnad, roedd perfformiad yn gymharol gymysg ar draws y rhanbarth. Fe wnaeth adferiad hybu perfformiad RevPAR mewn nifer o farchnadoedd, yn enwedig yn Istanbul (+24.5%), Brwsel (+7.2%), a Barcelona (+11.2%). Cafodd twf RevPAR cadarn Madrid (+12.7%) ei sbarduno gan ddigwyddiadau fel Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA ac EULAR ym mis Mehefin, a Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig COP25 ym mis Rhagfyr.


Fe wnaeth twf cyflenwad uwch na'r cyffredin mewn sawl marchnad ysgogi dirywiad RevPAR, gan gynnwys Dulyn, Copenhagen, Tbilisi a Warsaw. Er bod hyn wedi effeithio ar berfformiad yn y tymor byr, mae'n dangos hyder buddsoddwyr ar draws y rhanbarth.

[8]Ffynhonnell: Astudiaeth Gwestai Byd-eang STR 2019 ac Adolygiad Gwestai Ewrop Rhagfyr 2019.

# Tueddiadau Defnydd Gwestai Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau defnydd ystafelloedd a gwlâu gwestai cenedlaethol a rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r metrigau hyn yn galluogi dealltwriaeth o lefelau twristiaeth mewn cyrchfannau dros amser. Gallant hefyd dynnu sylw at gyfleoedd i ysgogi twf twristiaeth ar wahanol adegau o'r flwyddyn trwy ymgyrchoedd a digwyddiadau.

**Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Blynyddol)**





Mae gwestai wedi cyflawni lefelau perfformiad cyson yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf gyda defnydd ystafelloedd tua 66% yn rheolaidd a defnydd gwlâu yn agos at 50%.

Gellir ystyried perfformiad cyffredinol y sector yn 2019 yn weddol gadarnhaol wrth i agoriadau ac estyniadau gwestai arwain at gynnydd o tua 2% yn y cyflenwad o ystafelloedd yn ystod y flwyddyn.[9] Mae hyn yn golygu bod y farchnad wedi tyfu ychydig wrth i'r galw cynyddol am lety feddiannu'r ystafelloedd ychwanegol a oedd ar gael yn ystod y flwyddyn i gynhyrchu lefel debyg o ddefnydd ystafelloedd (66%) o gymharu â 2018.

[9] Ffynhonnell: AM:PM, cronfa ddata cyflenwi a datblygu gwestai gynhwysfawr STR.

# Tueddiadau Defnydd Gwestai Cymru

**Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Misol)**




Mae natur dymhorol y sector yn amlwg wrth i westai gyflawni perfformiad defnydd ystafelloedd a gwlâu mwyaf yn ystod misoedd yr haf, sef mis Gorffennaf a mis Awst. Roedd y canfyddiadau hyn yn gyffredinol gyson â 2018 er mai mis Awst oedd y mis gorau ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwlâu yn 2018 (77% a 62% yn y drefn honno).


I'r gwrthwyneb, roedd lefelau defnydd, fel yn 2018, ar eu hisaf yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn – mis Ionawr i fis Mawrth.

O gryn bellter, ym mis Ionawr y gwelwyd y lefelau isaf o fusnes mewn unrhyw fis gyda defnydd ystafelloedd a defnydd gwlâu yn olrhain ar 49% a 36%, yn y drefn honno. Roedd y canfyddiad hwn hefyd yn amlwg yn 2018 sy'n atgyfnerthu mai mis Ionawr yw'r mis tawelaf i weithredwyr gwestai yn y wlad.

# Tueddiadau Defnydd Gwestai Cymru

Er bod defnydd ystafelloedd a gwlâu yn gyffredinol yn 2019 yn debyg i'r lefelau a gofnodwyd yn 2018, gwelodd y flwyddyn sawl twf a chwymp mewn perfformiad oherwydd newidiadau mewn galw a ffactorau eraill.

**Cymru Gyfan – Defnydd Gwesty (Newid Misol Flwyddyn ar Flwyddyn 2019 yn erbyn 2018)**




Fel y nodwyd eisoes, ym mis Ionawr gwelwyd y lefel isaf o ddefnydd ystafelloedd a gwlâu. O gymharu â 2018, perfformiodd y mis yn arbennig o wael wrth i ddefnydd ystafelloedd ostwng 8% (mewn termau cymharol). Mae tywydd gaeafol anffafriol yn ystod y mis yn debygol o fod yn un ffactor a gyfrannodd at y dirywiad wrth i deithwyr ddewis aros gartref.

Yn y cyfamser, yn ystod misoedd yr haf gwelwyd twf cryf o flwyddyn i flwyddyn i westai gan fod defnydd ystafelloedd ym mis Gorffennaf, Awst a Medi yn gyson uwch na lefelau 2018.


Roedd mis Hydref hefyd yn fis mawr wrth i ddefnydd ystafelloedd gynyddu 8% a defnydd gwlâu gynyddu 4%. Unwaith eto, roedd y tywydd yn debygol o fod yn ysgogydd i'r perfformiad wrth i Hydref 2019 nodi pen-blwydd Storm Callum a ddaeth ag aflonyddwch eang ledled Cymru ym mis Hydref 2018. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd digwyddiadau fel Rali Cymru Prydain Fawr a Hanner Marathon Caerdydd yn ystod y mis a helpodd hyn i danio galw mawr am lety mewn gwestai.

Gorffennodd y flwyddyn yn yr un modd ag y dechreuodd wrth i westai ymdrechu i gadw defnydd. Roedd perfformiad i lawr y mwyaf (6% mewn termau cymharol) ym mis Tachwedd. Roedd y cwymp hwn yn debygol o fod wedi cael ei ddylanwadu gan lai o alw o'i gymharu â mis Tachwedd 2018 pan roedd Cymru yn gartref i'r gêm rygbi Ryngwladol yr Hydref yn erbyn yr Alban yn Stadiwm y Principality.

Nodyn: Mae'r siart yn dangos newid canrannol yn erbyn 2018 i'r 1% agosaf

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Defnydd Gwestai

**Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Blynyddol yn ôl Maint y Gwesty)**




Mae'n ddiddorol cymharu perfformiad gwestai yn 2019 yn ôl maint yn ôl nifer eu hystafelloedd.


Fel y dangosir yn y siart ar y dudalen hon, perfformiodd gwestai gyda 51 neu fwy o ystafelloedd yn sylweddol well na gwestai o faint llai gyda 50 neu lai o ystafelloedd.

Ar ben hynny, mae'r siart yn dangos bod gwestai llai gyda 11 – 25 ystafell wedi cyflawni'r gymhareb defnydd gwlâu i ystafell uchaf. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod y gwestai hyn yn elwa mwy ar deithwyr hamdden sydd fel rheol yn teithio mewn grwpiau o ddau neu fwy. Yn y cyfamser, mae'r gymhareb defnydd gwlâu i ystafell is ymhlith gwestai mwy o 26 ystafell neu fwy ac, yn benodol, ymhlith gwestai gyda 101+ o ystafelloedd, yn tynnu sylw at y ffaith bod y gwestai mwy hyn yn denu mwy o deithwyr busnes (unigol) yn anghymesur.

Trwy gydol holl fisoedd 2019, perfformiodd gwestai mwy gyda 51 neu fwy o ystafelloedd yn well na gwestai llai o ran defnydd ystafelloedd. Yn benodol, cyflawnodd gwestai mwy o faint lawer mwy o ddefnydd ystafelloedd yn ystod y misoedd tawelaf. Er enghraifft ym mis Tachwedd 2019, cyflawnodd gwestai â 51 ystafell neu fwy 77% o ddefnydd ystafelloedd sy'n cymharu â dim ond 48% o ddefnydd ystafelloedd ymhlith y rhai â 50 ystafell neu lai (h.y. roedd gwahaniaeth pwynt o 29 y cant). Yn y cyfamser, ym mis Gorffennaf ac Awst roedd yr amrywiant defnydd ystafelloedd rhwng gwestai mwy a llai o faint yn llawer is ar tua 10% o bwyntiau canran.

# Rhanbarthau Cymru

**Rhanbarthau Cymru – Defnydd Ystafelloedd Gwesty (Blynyddol)**




Er bod defnydd ystafelloedd gwestai Cymru yn gyffredinol yn 2019 ar yr un lefel â 2018 ar 66%, pan edrychwn yn ddyfnach ar y data mae'n amlwg bod rhai rhanbarthau yng Nghymru wedi cyflawni lefelau perfformiad ychydig yn wahanol o gymharu â 2018.


Gan adlamu o ddirywiad nodedig yn 2018, cyflawnodd gwestai yng Ngogledd Cymru adferiad wrth i ddefnydd ystafelloedd gynyddu i 65%. Cofrestrodd gwestai yn Ne Orllewin Cymru, sy'n cynnwys Abertawe, fwy o ddefnydd a gyda hynny y ffigur defnydd ystafell uchaf ar draws y cyfnod o bum mlynedd.

Yn y cyfamser, gwelodd gwestai yng Nghanol Cymru ddirywiad bach mewn defnydd o 55% yn 2018 i 54% yn 2019. Y lefel hon o ddefnydd ystafelloedd oedd yr isaf ymhlith pedwar rhanbarth Cymru ac roedd yn adlewyrchu tuedd gyson ar draws y cyfnod o bum mlynedd.

Yn olaf, cofrestrodd gwestai yn Ne Ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys y brifddinas, Caerdydd, ddirywiad bach yn nefnydd ystafelloedd o 73% yn 2018 i 71% yn 2019. Wedi dweud hynny, parhaodd y rhanbarth hwn i gyflawni'r defnydd ystafelloedd uchaf sydd, yn rhannol o leiaf, yn debygol o gael ei ddylanwadu gan y busnes cryf trwy gydol y flwyddyn a gynhyrchir gan westai yng Nghaerdydd.

# Rhanbarthau Cymru

## Rhanbarthau Cymru – Defnydd Gwlâu Gwestai (Blynyddol)




Mae tueddiadau defnydd gwlâu gwestai ar draws rhanbarthau Cymru yn adlewyrchu rhai o'r tueddiadau defnydd ystafelloedd a welwyd uchod wrth i westai De-ddwyrain Lloegr weld cwymp yn nefnydd gwlâu ochr yn ochr â chwymp bach yn nefnydd ystafelloedd. Yn ogystal â hynny, cyflawnodd gwestai Gogledd Cymru ddefnydd gwlâu uwch yn ogystal â defnydd ystafelloedd uwch yn 2019 o gymharu â 2018.


Fodd bynnag, cofnododd gwestai Canolbarth Cymru gwymp bach yn nefnydd ystafelloedd tra bod defnydd gwlâu wedi aros yn sefydlog ar 45%. Yn y cyfamser, nododd gwestai De Orllewin Cymru gwymp yn nefnydd gwlâu er gwaethaf y defnydd o ystafelloedd yn cynyddu. Mae'r canlyniad hwn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o wahanol broffiliau gwesteion gwestai rhwng y ddwy flynedd ac, yn benodol, mwy o deithwyr busnes yn 2019 yn ôl pob tebyg.

Roedd defnydd gwlâu ar y cyfan ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru (52%) ac ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru (45%). Fodd bynnag, cofnododd gwestai Canolbarth Cymru'r gymhareb gwlâu i ystafelloedd uchaf (0.83) sy'n awgrymu mai'r gwestai hyn a ddenodd y gyfran uchaf o deithwyr hamdden. Mae cymarebau llawer is yn amlwg ymhlith De Orllewin Lloegr a, hyd yn oed yn fwy felly, De Ddwyrain Cymru, oherwydd yn yr ardaloedd mwy trefol hyn o Gymru cyflawnodd y gwestai gymysgedd well o westeion o segmentau hamdden a busnes.

# Tueddiadau Refeniw Gwestai Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau perfformiad gwestai Cymru o ran dau fesur perfformiad ariannol allweddol a ddefnyddir gan weithredwyr gwestai: cyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) a refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR).

**Cymru Gyfan – ADR & RevPAR Gwestai (Blynyddol)**





Mae tueddiad bach ar i fyny ar draws y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer ADR gan fod gwestai, ac eithrio 2019, wedi cynyddu eu cyfraddau ystafell ar gyfartaledd bob blwyddyn, er fod hynny ar gynyddrannau bach yn gyffredinol. Mae hwn yn ganfyddiad calonogol gan fod angen i westai gynyddu ADR bob blwyddyn i wneud iawn am gostau rhedeg cyffredinol uwch ac i addasu ar gyfer chwyddiant.

Fodd bynnag, mae stori lai cadarnhaol wrth edrych ar berfformiad RevPAR dros y cyfnod gan fod y dangosydd hwn wedi gostwng ychydig yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae RevPAR yn cael ei ystyried yn gyffredin fel metrig perfformiad allweddol gwestai ac, felly, mae unrhyw ostyngiad yn y ffigur hwn yn awgrymu heriau cynyddol i westai.

Yn 2019, gostyngodd ADR ychydig o 1.2% o £68.15 yn 2018 i £67.32. Arweiniodd y canlyniad hwn ynghyd â defnydd gwastad at ddirywiad cyffredinol yn RevPAR o 4.0% (£50.63 yn 2019 o'i gymharu â £52.75 yn 2018).

[5]Cyfrifir y gyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sy'n cael eu gwerthu. Cyfrifir refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sydd ar gael. Mae RevPAR yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel y mesur perfformiad gwestai mwyaf pwerus gan ei fod yn cyfrifo arenillion yn seiliedig ar bob ystafell westy (naill ai wedi'u gwerthu neu heb eu gwerthu) am unrhyw gyfnod o amser.

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwesty




Roedd tueddiadau refeniw gwestai yn dilyn patrwm tebyg, ond llai eithafol, i ddefnydd gan fod natur dymhorol wedi cael effaith sylweddol ar ADR a RevPAR. O ganlyniad roedd y mesurau perfformiad ariannol ar eu huchaf yn ystod misoedd brig yr haf ac ar eu hisaf yn ystod cyfnod tymor isel Ch1 2019 ac, yn benodol, ym mis Ionawr 2019. Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson â chanlyniadau 2018 hefyd.


Fel y gwelwyd hefyd yn 2018, cyflawnodd Mehefin yr ADR uchaf o £75.69, o gryn bellter. Yn y cyfamser, cyrhaeddodd RevPAR uchafbwynt ym mis Gorffennaf (gan ragori ychydig ar fis Mehefin) ar £60.76. Fe wnaeth defnydd uwch ym mis Gorffennaf, o'i gymharu â mis Mehefin, ynghyd ag ADR cryf o £71.93 helpu i wneud hwn y mis mwyaf proffidiol i westai, ac yna Mehefin ac Awst yn dilyn yn agos.

Fel yr amlygwyd uchod, ym mis Ionawr y gwelwyd y perfformiad ADR a RevPAR isaf yn ystod y flwyddyn. Er bod ADR ym mis Ionawr oddeutu 15% yn is na'r cyfartaledd blynyddol o £67.32, roedd RevPAR dros 30% yn is na'r cyfartaledd blynyddol. Mae'r lefel hynod is hon o berfformiad yn tynnu sylw at natur swrth busnes i westai yn ystod mis cyntaf y flwyddyn.

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwesty

Er bod defnydd ystafelloedd a gwlâu yn gyffredinol yn 2019 yn debyg i'r lefelau a gofnodwyd yn 2018, gwelodd y flwyddyn sawl twf a chwymp mewn perfformiad oherwydd newidiadau mewn galw a ffactorau eraill.

**Cymru Gyfan – Newid Misol Flwyddyn ar Flwyddyn ADR & RevPAR Gwestai (2019 yn erbyn 2018)**




Gallwn weld yn y siart ar y dudalen hon fod y flwyddyn wedi gosod heriau i westai o ran cadw refeniw a phroffidioldeb ystafelloedd gan fod twf wedi'i gofnodi mewn ychydig fisoedd yn unig yn ystod y flwyddyn tra bod y misoedd oedd yn weddill wedi gweld dirywiad yn ADR a/neu RevPAR.

Ym mis Awst y cyflawnwyd y twf mwyaf flwyddyn ar flwyddyn o ran ADR (5%) a oedd o bosibl yn rhannol o leiaf oherwydd gêm rygbi rhyngwladol yr Hydref rhwng Cymru ac Iwerddon yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn 31ain Awst.

Fodd bynnag, Mai oedd y mis cryfaf yn gyffredinol yn y flwyddyn wrth i RevPAR dyfu fwyaf, er ar gyfradd gymedrol o 2%. Ymhlith y digwyddiadau allweddol eraill y mis hwn, dechreuodd The Spice Girls ar eu taith hir-ddisgwyliedig yn y DU gan berfformio yn Stadiwm Principality Caerdydd ddydd Llun 27ain Mai.


I'r gwrthwyneb, mis Mawrth oedd y mis mwyaf heriol o'i gymharu â pherfformiad 2018 wrth i ADR a RevPAR gwympo dros 10%. Roedd amseriad diweddarach y Pasg a'r gwyliau ysgol cysylltiedig yn 2019 yn debygol o fod yn ffactor mawr fyddai'n esbonio'r dirywiad ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gwestai wedi parhau i gael trafferth ym mis Ebrill er gwaethaf gwyliau'r Pasg gan fod ADR a RevPAR hefyd yn is na lefelau 2018.

Roedd diwedd y flwyddyn hefyd yn nodi heriau sylweddol i westai ledled y wlad wrth i RevPAR gwympo tua 8% yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

Nodyn: Mae'r siart yn dangos newid canrannol yn erbyn 2018 i'r 1% agosaf

# Rhanbarthau Cymru

**Rhanbarthau Cymru – ADR Gwestia (Blynyddol)** [9]




[9]Nodyn: Mae cyfresi data coll yn dangos nad oes digon o ddata at ddibenion adrodd.

Mae'r tueddiadau refeniw ymhlith gwestai ar draws tri rhanbarth Cymru lle mae digon o ddata yn tynnu sylw at y ffaith bod 2019 yn flwyddyn heriol.


Nododd y rhanbarthau hyn ddirywiad yn ADR yn 2019 gyda'r gostyngiad mwyaf serth i'w weld yn Ne Orllewin Cymru (4.5%) a'r cwymp lleiaf serth yn Ne Ddwyrain Cymru (2.7%).

O edrych ar y cyfnod o bum mlynedd yn ei gyfanrwydd, mae gwestai yn y rhanbarthau wedi tyfu ADR yn gyffredinol, er ar gyfradd araf. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau ADR a gofnodwyd yn 2019 wedi atal y trywydd ar i fyny i raddau helaeth ac, felly, mae ansicrwydd ynghylch perfformiad yn y dyfodol.

Gan dynnu sylw at natur ddeinamig marchnadoedd gwestai a strategaethau prisio ystafelloedd gwestai, roedd amrywiadau rhanbarthol mawr mewn ADR. Cyflawnodd gwestai yng Ngogledd Cymru yr ADR isaf o £52.77 yn 2019 tra cofnodwyd yr ADR uchaf o £68.40 – rhyw 30% yn uwch – yn Ne Ddwyrain Cymru.

# Rhanbarthau Cymru

**Rhanbarthau Cymru – RevPAR Gwestai (Blynyddol) [10]**




Gan adlewyrchu'r ffigurau perfformiad ADR a drafodwyd uchod, cofnododd gwestai ar draws rhanbarthau adrodd Cymru ostyngiadau yn RevPAR o gymharu â 2018.

Yn dilyn tair blynedd o dwf yn olynol, gwestai yng Ngogledd Cymru welodd y cwymp mwyaf wrth i RevPAR ostwng 11.1% yn 2019. Gwelodd gwestai'r De Ddwyrain ddirywiad nodedig hefyd wrth i RevPAR ostwng 4.3%. Yn y cyfamser, cofnododd gwestai yn Ne Orllewin Cymru ddirywiad bach o 0.9% a oedd, er yn negyddol, yn dda yn erbyn dau ranbarth arall Cymru lle roedd digon o ddata.

Fel yn 2018 ac er gwaethaf y dirywiad yn 2019, parhaodd gwestai De Ddwyrain Cymru i gyflawni'r RevPAR uchaf ar draws pedwar rhanbarth Cymru (£53.66).

[10]Nodyn: Mae cyfresi data coll yn dangos nad oes digon o ddata at ddibenion adrodd.

# Tai Llety/Gwely a Brecwast

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer lefelau defnydd gwely ac ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast


Oherwydd maint sampl misol isel yr arolwg Tai Llety/Gwely a Brecwast (yn amrywio rhwng 22 – 28), dylid bod yn ofalus wrth edrych ar ganlyniadau'r adran hon.


# Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast Cymru

**Defnydd**

Yn yr un modd â'r sector gwestai, cofnododd misoedd yr haf y defnydd ystafelloedd a gwlâu uchaf gydag Awst 2019 yn cyrraedd uchafbwynt ar 61% a 55% yn y drefn honno.  Gwelodd lefelau defnydd ystafelloedd a gwlâu ledled Cymru yn y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast gynnydd bach yn 2019, y ddau i fyny dau bwynt canran ar 2018.

**Cymru – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol)**








# Cymru yng Nghyd-destun y DU

**Defnydd**

O'i gymharu â gwledydd eraill, roedd lefelau defnydd ystafelloedd yng Nghymru gryn dipyn yn is na'r Alban ond yn uwch na Tai Llety/Gwely a Brecwast yng Ngogledd Iwerddon, gyda Chymru yn gweld cynnydd o 2 bwynt canran o'i gymharu â 2018. Roedd Cymru wedi gweld cynnydd tebyg o 2 bwynt canran yn nefnydd gwlâu o'i gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon lle roedd defnydd gwlâu wedi gostwng 1 pwynt canran yn yr Alban a 3 phwynt canran yng Ngogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, roedd Cymru wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y ddau fath o ddefnydd o'i chymharu â'r ddwy wlad arall.

**Y DU – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol) [1]**





[1]Ffynonellau: Tourism Northern Ireland, VisitScotland,


# Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau a Chyfartaledd 3 Mlynedd

**Cymru – Defnydd Rhanbarthol Tai Llety/Gwely a Brecwast (Cyfartaleddau 3 Blynedd)**

Oherwydd maint sampl bach mewn tai llety/gwely a brecwast, nid yw tueddiadau flwyddyn ar flwyddyn yn cael eu dangos eto ac felly rydym wedi defnyddio cyfartaledd treigl tair blynedd i ddangos tueddiadau 3 blynedd dros gyfnod o bum mlynedd. Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn Ne Orllewin Cymru yn llawer uwch na phob rhanbarth arall gyda lefel defnydd gyson ar draws y cyfartaleddau 3 blynedd rhwng 2015 a 2019 ar 46%. Er ei fod yn llawer is o ran lefelau defnydd ystafelloedd, fe wnaeth Canolbarth Cymru hefyd gynnal cyfartaledd defnydd eithaf cyson dros y blynyddoedd dan sylw, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2017–2019 ar 30%. Mae'r Gogledd wedi gweld cwymp o 3 phwynt canran yn y cyfnod 2017–2019 o'i gymharu â'r cyfartaleddau 3 blynedd rhwng 2015–2017. Y De Ddwyrain sydd â'r lefelau defnydd ystafelloedd isaf o bell ffordd, a gellir eu priodoli'n rhannol i faint y sampl fach ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Mae defnydd gwlâu yn dangos patrwm tebyg gyda'r defnydd gwlâu uchaf ar draws y cyfartaleddau 3 blynedd yn Ne Orllewin Cymru (43%).

**Cymru – Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast a Chyfartaleddau 3 blynedd**



# Llety Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer llety hunanddarpar, gan gynnwys bythynnod, byngalos, porthdai/cabanau, tai a fflatiau ac yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr ac asiantaethau annibynnol wedi’u dilysu sy'n cynnig llety o'r math hwn yng Nghymru. Dyluniwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu sydd ar osod trwy weithredwyr o'r fath.

Mae defnydd yn cael ei fesur ar lefel yr eiddo unigol trwy fynegi nifer yr wythnosau sy'n cael eu gosod bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.


# Cymru – Tueddiadau Defnydd Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau defnydd uned hunanddarpar cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru ac yn darparu dealltwriaeth o lefelau twristiaeth mewn cyrchfannau dros gyfnod o 12 mis.  Gall defnyddio'r data hwn helpu i ddarparu cyfleoedd i ysgogi twf twristiaeth ar wahanol adegau o'r flwyddyn trwy ymgyrchoedd a digwyddiadau.

**Cymru (Gyfan)**

Yn 2019, 57% oedd y defnydd cyfartalog uned hunanddarpar blynyddol ar gyfer yr holl fythynnod a fflatiau. Parhaodd llety hunanddarpar i ddangos lefelau uchel o ddefnydd yn ystod y cyfnodau prysuraf, gyda defnydd uned cyfartalog o 69% am y cyfnod rhwng Mai a Hydref, cwymp bach o 1 pwynt canran ers 2018.

Cymru – Defnydd Hunanddarpar – Blynyddol a Newid Mai i Hydref 2015 i 2019




# Hunanddarpar – Cymru yng Nghyd-destun y DU

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o dueddiadau perfformiad hunanddarpar yng Nghymru yn 2019.

**Defnydd**

**DU – Defnydd Uned Hunanddarpar (Blynyddol)[1]**




Mae data o arolwg defnydd hunanddarpar The Research Solution, yn dangos defnydd uned o 57% yn 2019, i fyny o 55% yn 2018, gan ddychwelyd at y duedd ar i fyny yn lefelau defnydd hunanddarpar yn 2017.


Cofnododd unedau hunanddarpar yn yr Alban ddefnydd uned o 48% yn 2019, cwymp o 7 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol.

[1]Ffynonellau: VisitScotland – oherwydd oedi cyn cyhoeddi'r canlyniadau ar gyfer 2019, nid oes ffigurau ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon.


# Hunanddarpar – Defnydd Uned 2019

Gwelwyd y lefelau defnydd uchaf yn ystod misoedd yr haf 2019, ac yn benodol mis Awst (88%), tra bod lefelau perfformiad ar eu hisaf ym mis Tachwedd (38%), mis Mawrth (40%) a mis Rhagfyr (40%), gan ddangos y tueddiadau tymhorol mewn defnydd llety hunanddarpar yng Nghymru.

**Cymru – Defnydd Uned Hunanddarpar Cyfartalog (misol) 2019**




Roedd defnydd cyffredinol yn 2019 yn uwch na lefelau 2018, ond gellir gweld amrywiad mis ar fis ar nifer o bwyntiau yn ystod y flwyddyn. Nododd Ionawr, Chwefror ac Ebrill 2019 dwf defnydd sylweddol (6%, 8% a 5%, yn y drefn honno), ond cofnododd mis Rhagfyr y gwelliant uchaf yn nefnydd uned, gan gofnodi newid o 15 y cant ar lefelau 2018. Gwelodd Mehefin, Awst, Hydref a Thachwedd gwymp bach rhwng 1 a 2 newid canrannol o'i gymharu â'r un misoedd yn 2018.





Nodyn: Mae'r siart yn dangos newid canrannol yn erbyn 2018 i'r 1%

# Rhanbarthau Cymru


Gwelodd lefelau defnydd uned ar draws tri allan o bedwar rhanbarth gynnydd yn ystod 2019. Gogledd Cymru gyflawnodd y defnydd uned uchaf ar 64%, ac yna De Orllewin Cymru (56%) a Chanolbarth Cymru (52%). Yn y cyfamser, cofnodwyd y defnydd uned isaf yn Ne Ddwyrain Cymru (48% – ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol).

Roedd defnydd uned cyfartalog blynyddol mewn lleoliadau arfordirol yn uwch na lleoliadau mewndirol, gan barhau â'r duedd dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn 2019 roedd cyfraddau defnydd mewn lleoliadau arfordirol ar gyfartaledd, bedwar pwynt canran yn uwch na lleoliadau mewndirol (60% o'i gymharu â 56%).

**Rhanbarthau Cymru – Defnydd Uned Hunanddarpar (Blynyddol) 2019**




**Defnydd Hunanddarpar Cymru yn ôl Lleoliad – Cyfartaledd Blynyddol – 2010–2019**




# Defnydd Hunanddarpar Cymru yn ôl Tariff

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu cyfraddau defnydd uned cyfartalog blynyddol yn ôl tariff ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2019.

**Cymru (Gyfan) – Cyfartaledd Blynyddol – 2015–2019**

Cyflawnodd eiddo yn y band tariff £500–£799 y gyfradd defnydd uned gyfartalog flynyddol uchaf (59%) yn 2019 – cynnydd o chwe phwynt canran o gymharu â 2018. Gwelwyd bod y gyfradd defnydd uned gyfartalog flynyddol isaf (45%) yn y rhai sy'n codi rhwng £300 a £499 –1% yn is na'r ffigur a gofnodwyd yn 2018. Yr unig ostyngiadau blwyddyn ar flwyddyn a ddarganfuwyd rhwng 2018 a 2019 oedd yn y bandiau tariff £300–£499 a £800+ lle roedd defnydd un pwynt canran yn is yn 2019 nag yn 2018 (46% yn 2018 i lawr i 45% yn 2019 a 57% i lawr i 56%).

**Defnydd Hunanddarpar Cymru yn ôl Tariff – Cyfartaledd Blynyddol – 2015–2019**



# Sector parciau gwyliau a meysydd gwersylla


Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer y sector parciau gwyliau a meysydd gwersylla gan gynnwys carafanau statig, cartrefi gwyliau, carafanau teithiol, cartrefi modur a phebyll.

Mae defnydd yn cael ei fesur trwy gysylltu nifer yr unedau a osodwyd yn ystod y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) â chyfanswm y nifer sydd ar gael i'w gosod yn ystod yr amser hwnnw.

# Carafanau Statig a Thai Gwyliau – Mai – Hydref Defnydd Uned – Data Tuedd (2015–2019)


Mae cyfraddau defnydd Cartrefi Gwyliau Carafanau wedi dangos rhywfaint o amrywiad dros y pum mlynedd diwethaf. Cyrhaeddodd cyfartaledd tymhorol 2019 (Mai – Hydref) ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau 90%, i fyny dau bwynt canran ar 2018 (88%) a dim ond un pwynt canran yn is na'r lefelau a welwyd yn 2016 (91%). Fodd bynnag, dylid nodi, ers 2016, bod cynnwys sawl parc gwyliau mawr wedi cyfrannu at y cynnydd yn y lefelau defnydd dros y cyfnod hwn.

**Carafanau Statig a Thai Gwyliau Cymru – Defnydd Uned Tymhorol – 2015 - 2019**




# Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau – Defnydd Misol ac Uned – Mai – Hydref 2019

Y defnydd uned ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) oedd 90%.  Yn ystod misoedd yr haf, Awst a Gorffennaf, gwelwyd y defnydd uned mwyaf dros y misoedd dan sylw (96% a 93%) ar gyfer carafannau statig a chartrefi gwyliau.  Yn gynnar yn y tymor gwelwyd lefelau uchel o ddefnydd ym mis Mai a mis Mehefin – 92% ar gyfer y ddau, gyda'r cyfraddau isaf wedi'u cyflawni ym mis Hydref (78%).



# Rhanbarthau Cymru – Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau – Mai – Hydref Cyfartaledd Treigl 3 Blynedd

**Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau Mai – Hydref (Cyfartaleddau 3 Blynedd)**




Ni ddangosir tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar draws y rhanbarthau oherwydd maint samplau bach mewn rhai ardaloedd ac felly, mae defnyddio cyfartaledd treigl tair blynedd yn caniatáu gweld patrwm tueddiad ar draws y rhanbarthau.  Roedd lefelau defnydd uned yn Ne Ddwyrain Cymru yn llawer uwch na lefelau pob rhanbarth arall gan gyrraedd uchafbwynt ar 92% yn 2017–2019.

Er ei fod yn llawer is o ran defnydd uned, roedd De Orllewin Cymru hefyd yn cynnal patrwm tebyg gyda chynnydd o 4 pwynt canran yn y cyfnod 2016–2018 ac yn cynnal yr un lefel rhwng 2017–2019.


Gwelodd Canolbarth Cymru'r twf mwyaf mewn defnydd uned yn 2017–2019 gyda lefelau'n codi 13 pwynt canran, y cynnydd uchaf ar draws yr holl ranbarthau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Mae Gogledd Cymru, er ei fod yn weddol gyson o ran defnydd uned ar draws y cyfnodau o 3 blynedd, yn cyflawni lefelau defnydd llawer is na phob un o'r rhanbarthau eraill.

# Carafanau Statig a Thai Gwyliau – Mai – Hydref Defnydd Uned – Lleoliad (2015–2019)


Mae cyfraddau defnydd Cartrefi Gwyliau Carafanau mewn lleoliadau arfordirol wedi bod rhwng dau a thri phwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob uned. Cyrhaeddodd cyfartaledd tymhorol 2019 (Mai – Hydref) ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau mewn lleoliadau arfordirol 91%, i fyny un pwynt canran yn 2018 ond ychydig yn is na'r lefelau a welwyd yn 2016 (93%). Mae lleoliadau mewndirol wedi gweld twf parhaus ers 2017 gyda pharciau ychwanegol yn cael eu cynnwys y sampl. Er 2016, mae defnydd uned mewn lleoliadau mewndirol wedi codi o 41% i 72% yn 2019, cynnydd o 31 pwynt canran.

**Carafanau Statig a Thai Gwyliau Cymru – Lleoliadau Arfordirol – Defnydd Uned Tymhorol (%)**



# Carafanau Teithiol a Gwersylla – Defnydd Lleiniau – Data Tuedd Mai – Hydref (2015–2019)

Y cyfartaledd defnydd tymhorol ar gyfer carafanau teithiol a pharciau gwersylla yn 2019 oedd 43%, sydd ychydig yn is na ffigurau 2018 ond yn welliant ar gyfraddau defnydd lleiniau a welwyd yn y blynyddoedd cyn 2018.




# Carafanau Teithiol a Gwersylla – Defnydd Lleiniau – Mai – Hydref 2019

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cynnwys parciau sy'n cynnig lleiniau carafanau teithiol a gwersylla yng Nghymru. Defnydd lleiniau 2019 ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) oedd 43%*.

Ym mis Awst y gwelwyd y defnydd lleiniau mwyaf dros y misoedd dan sylw (57%) ar gyfer lleiniau carafanau teithiol a gwersylla, ac yna Gorffennaf (48%). Yn gynnar yn y tymor gwelwyd lefelau cymedrol o ddefnydd (ym mis Mai ar 38%), ond gwelwyd lefelau defnydd ar gyfer defnydd lleiniau diwedd tymor (Hydref) yn cwympo i 29%.


**Parciau Carafannau Teithiol a Pharciau Gwersylla Cymru – Defnydd Misol o Leiniau Mai – Hydref 2019**




**Noder y dylid ystyried y meintiau sampl cymharol fach ar gyfer y sector hwn, ynghyd ag amrywiadau yn y rhai sy'n darparu data, wrth gymharu data.*

# Rhanbarthau Cymru – Carafanau Teithiol a Gwersylla – Mai – Hydref Cyfartaledd Treigl 3 Blynedd

**Carafanau Teithiol a Gwersylla Mai – Hyd (Cyfartaleddau 3 Blynedd)**





Mae De Ddwyrain a Chanolbarth Cymru wedi gweld cynnydd yn nefnydd lleiniau yn ystod y cyfartaledd 3 blynedd 2017–2019. Gwelodd Canolbarth Cymru gynnydd o 4 pwynt canran gyda'r De Ddwyrain i fyny 4 pwynt canran yn yr un modd yn ystod y cyfnod hwn.

Er i Dde Orllewin a Gogledd Cymru ostwng ychydig yn ystod y cyfnod 3 blynedd o 2017–2019, y ddau i lawr 1 pwynt canran, yn gyffredinol, mae defnydd lleiniau wedi gweld cynnydd cadarnhaol wrth edrych ar y cyfartaleddau dros y cyfnod dan sylw.

# Defnydd Carafanau Teithiol a Gwersylla – Lleoliad – Mai – Hydref (2015–2019)

Mae data defnydd ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla yn cael eu rhannu rhwng lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae'r siart sydd yn dilyn yn dangos cymariaethau ar gyfer cyfartaledd Mai–Hydref rhwng lleoliadau mewndirol ac arfordirol ar gyfer y cyfnod 2015–2019 o'i gymharu â'r cyfartaledd blynyddol ar draws y blynyddoedd. Rhwng 2015 a 2017 cyflawnodd lleoliadau arfordirol lefelau uwch o ddefnydd lleiniau na'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau mewndirol. Fodd bynnag, mae data 2018 a 2019 yn dangos newid mewn patrwm gyda defnydd lleiniau mewn lleoliadau mewndirol bum pwynt canran yn uwch (47% a 44% yn y drefn honno) nag mewn lleoliadau arfordirol (42% a 39%). Y defnydd lleiniau cyfartalog ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla yn 2019 oedd 43%, cwymp o 3 phwynt canran ar y flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'r dirywiad mewn defnydd mewndirol ac arfordirol yn 2019.

**Carafanau Teithiol a Pharciau Gwersylla Cymru – Defnydd Lleiniau yn ôl lleoliad – Mai – Hydref (2015 – 2019)**



# Hosteli a Thai Bync Cymru

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r perfformiad defnydd gwlâu misol a blynyddol ar gyfer hosteli a thai bync ledled Cymru yn 2019.


Mae lefelau defnydd hosteli a thai bync yn cael eu mesur trwy gysylltu nifer y gwlâu sy'n cael eu gosod yn ystod y flwyddyn â chyfanswm y gwlâu sydd ar gael yn ystod yr amser hwnnw.

# Hosteli a Thai Bync – Defnydd Gwlâu Misol a Blynyddol – 2019

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o dueddiadau perfformiad hosteli a thai bync yng Nghymru yn 2019. Y defnydd gwely ar gyfartaledd ar gyfer 2019 oedd 54%.

Yn yr un modd â sectorau eraill, mae patrwm tymhorol clir gyda lefelau defnydd gwlâu yn codi'n barhaus o'i bwynt isaf ym mis Ionawr (29%) i'w uchafbwynt ym mis Awst (75%) cyn cwympo'n gyson eto i 42% o ddefnydd gwlâu ym mis Rhagfyr.


**Hosteli a Thai Bync – Defnydd Gwlâu Misol a Blynyddol – 2019**



# Hosteli a Thai Bync – Defnydd Gwlâu Cymru Data Tueddiadau (2015–2019)


Y defnydd gwlâu cyfartalog blynyddol yn 2019 oedd 54%, cynnydd o un pwynt canran o'i gymharu â 2018 (53%). Mae defnydd gwlâu ar gyfer Hosteli a Thai Bync wedi codi'n gyson ers 2015, gan gynyddu bum pwynt canran yn y cyfnod rhwng 2015 a 2019.

**Hosteli a Thai Bync Cymru - Defnydd Gwlâu Cyfartalog Blynyddol – 2015-2019**




*Nodyn: Ni chesglir data ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.*

## Cymhariaeth Cymru yn erbyn yr Alban





Wrth gymharu'r defnydd gwlâu cyfartalog blynyddol ar gyfer hosteli a thai banc gyda'r Alban, fe wnaeth defnydd gofod gwlâu ar draws yr Alban yn well, gyda chynnydd o 5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

[1]Ffynhonnell: VisitScotland

# Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau a Chyfartaleddau 3 Blynedd

**Defnydd Gwely Hostel (Cyfartaleddau 3 blynedd)**





Ar draws y rhanbarthau, mae Canolbarth Cymru a De Orllewin Lloegr wedi gweld cynnydd cyson yn lefelau defnydd gwlâu mewn hosteli a thai bync ers 2015. Yn y cyfnod 2017–2019, cododd lefelau defnydd gwlâu Canolbarth Cymru 3 phwynt canran, i fyny o 55% yn y cyfnod 3 blynedd o 2016–2018 i 58%. Ers cyfnod cyfartalog 3 blynedd 2015–2017, mae lefelau defnydd gwlâu y De Orllewin wedi cynyddu 4 pwynt canran, i fyny o 49% yn y cyfnod hwn i 53% yn y cyfnod 3 blynedd 2017–2019.

Mae Gogledd Cymru wedi dangos lefelau cyson o ddefnydd gwlâu ar draws y cyfnodau cyfartalog 3 blynedd gyda'r De Ddwyrain yn gweld lefel defnydd ychydig yn fwy cymysg yn ystod y cyfnod dan sylw

# Hosteli a Thai Bync – Defnydd Gwlâu – Yn ôl Lleoliad

Roedd defnydd gwlâu cyfartalog 2019 ar gyfer hosteli a thai bync mewn lleoliadau mewndirol (58%) yn uwch nag mewn lleoliadau arfordirol (45%). Gan edrych ar gyfartaleddau misol mewn lleoliadau mewndirol ac arfordirol, trwy gydol y flwyddyn roedd defnydd gwlâu mewndirol mewn hosteli a thai bync yn perfformio'n well yn gyson na lleoliadau arfordirol.



# Casgliadau

Yn gyson â 2018, cyflawnodd gwestai Cymru ddefnydd trawiadol o 66% yn 2019 sydd, er yn is na chyfartaledd y DU, yn amlygu cryfder ac anhyblygedd sylfaenol yn y farchnad. Yn benodol, mae'r perfformiad yn nodedig gan fod 2019 wedi gweld cyfnod o ansicrwydd parhaus oherwydd Brexit a heriau eraill yn y sector megis twf cyflenwad, costau caffael cynyddol a chynnydd mewn llety amgen.

Er bod gwestai Cymru wedi parhau i gyflawni lefelau cadarn o ddefnydd, roedd gwestai yn ei chael hi'n anodd tyfu ADR ac, felly, RevPAR – y metrig perfformiad gwestai allweddol. Yn benodol, mae yna ymdeimlad mai gwestai y tu allan i'r dinasoedd allweddol oedd yn ei chael hi'n fwyaf anodd tyfu cyfraddau wrth i westai Gogledd Cymru nodi gostyngiad dau ddigid yn RevPAR.

Yn yr un modd â'r mwyafrif o farchnadoedd gwestai, chwaraeodd digwyddiadau ran allweddol i wella perfformiad gyda digwyddiadau busnes a chorfforaethol a rygbi rhyngwladol a chyngherddau yn Stadiwm y Principality, Caerdydd, yn arbennig, yn helpu i newid y galw. Bydd ffocws parhaus ar ddigwyddiadau busnes a hamdden gan awdurdodau lleol a chyrchfannau yn helpu i gynhyrchu galw cynyddol am lety ledled y wlad a fydd, ynghyd ag arfer rheoli refeniw da gan westai, o fudd mawr i'r sector a'r economi ymwelwyr gyffredinol.

Ar draws Cymru gyfan, gwelodd tai llety/gwely a brecwast gynnydd yn nefnydd ystafelloedd a gwlâu yn ystod 2019.  Er bod hwn yn gynnydd cadarnhaol i dai llety/gwely a brecwast, mae'r gystadleuaeth barhaus gan Airbnb yn parhau i gystadlu â darparwyr llety ledled Cymru.

# Casgliadau

Yn yr un modd â sector â gwasanaeth tai llety/gwely a brecwast, profodd unedau hunanddarpar Cymru (gan gynnwys bythynnod, byngalos, porthdai/cabanau, tai a fflatiau) ddefnydd uned uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd â llety â gwasanaeth, mae'r her sy'n deillio o lety i'w rhentu am bris isel wedi effeithio ar rai busnesau sy'n cynnig llety hunanddarpar.

Mae'r marchnadoedd Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau a Carafanau Teithiol a Gwersylla wedi cynnal y lefelau a gyflawnwyd yn 2018 gyda'r duedd o fynd ar wyliau yn y DU yn parhau i gryfhau gyda mwy a mwy o bobl ar eu gwyliau yn y DU yn aros gartref yn 2019. Ymhellach i ffwrdd, mae disgwyl i ranbarth Ewrop gadw ei safle blaenllaw yn y farchnad gwersylla a charafanio byd-eang, oherwydd cynnydd yn amlder a hyd gwyliau gan bobl ifanc yn y parciau gwersylla carafanau, ynghyd â'r duedd gynyddol o gartrefi symudol heb ddibynnu ar westai neu fotelau

Cododd lefelau defnydd gwlâu ar gyfer Hosteli a Thai Bync yn 2019 ychydig bach o'r flwyddyn flaenorol. Ledled Cymru, mae'r duedd ar i fyny yn lefelau defnydd gwlâu mewn Hosteli a Thai Bync wedi parhau ers 2015. Ni chesglir data ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

[1]Ffynhonnell: Teithio, Twristiaeth a Lletygarwch